

Bwrdd Taliadau Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru

—  
Remuneration Board of the  
National Assembly for Wales

16 Mawrth 2017

Annwyl Aelod Cynulliad,

### **Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad**

Ar 26 Ionawr, bu'r Bwrdd Taliadau yn trafod yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, yn benodol er mwyn gwneud cynigion ynghylch cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, costau swyddfa a gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2017-18. Gwnaethom ysgrifennu at Aelodau ar y pryd yn nodi y byddai cynigion yn dilyn ynghylch y lwfans preswyl ar gyfer Aelodau sy'n cynrychioli etholaethau neu ranbarthau yn yr ardal allanol.

### ***Lwfansau preswyl yr ardal allanol ar gyfer 2017-18***

Yn ein cyfarfod ym mis Ionawr, trafododd y Bwrdd nifer o ffactorau ynghylch gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2017-18, gan gynnwys cymariaethau â dulliau deddfwrfeydd eraill ledled y DU.

O ran y gefnogaeth i Aelodau'r ardal allanol, penderfynodd y Bwrdd wneud rhagor o waith ymchwil ar brisiau rhent ym Mae Caerdydd er mwyn gwneud cynnig sy'n adlewyrchu'r prisiau rhent diweddaraf.

Felly, rydym yn cynnig cynyddu'r lwfans gwariant ar lety preswyl o'i lefel bresennol o £735 y mis i £775 y mis i adlewyrchu amodau presennol y farchnad eiddo leol.

Gofynnwn ichi anfon atom unrhyw ymateb yr hoffech ei wneud i'r cynnydd arfaethedig erbyn **13 Ebrill 2017** i lywio ein trafodaethau.

Byddai'r cynnydd arfaethedig hwn yn cael ei ôl-ddyddio o 1 Ebrill 2017.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer arferol.

Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6331  
E-bost/E-mail: Taliadau@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Os hoffech drafod y mater hwn gyda mi, neu gydag un o'm cyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Primarolo', written in a cursive style.

**Y Fonesig Dawn Primarolo**  
**Cadeirydd**  
**Y Bwrdd Taliadau/Remuneration Board**